



S4C DIGITAL MEDIA LIMITED
Y GRONFA DDIGIDOL: CANLLAWIAU BUDDSODDI

Cyhoeddwyd yn wreiddiol: Awst 2012
Diwygiwyd: Tachwedd 2012

1. Cyflwyniad

Mae S4C Digital Media Limited ("SDML"), sy'n is-gwmni i S4C, wedi penderfynu sefydlu cronfa ddigidol (y "Gronfa") gan ddefnyddio'i harian masnachol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys mwy o wybodaeth am y Gronfa a'r canllawiau buddsoddi a fydd yn berthnasol iddi. Nod y Gronfa yw cefnogi cynnyrch a gwasanaethau creadigol newydd y gellir manteisio arnynt ar draws platfformau, dyfeisiau a sianeli digidol ac yn fasnachol gyda'r amcan o ehangu a dyfnhau arlwy S4C i'w chynulleidfaoedd.

2. Beth yw maint y Gronfa?

Maint y Gronfa i ddechrau yw £1m. Bydd £1m pellach ar gael bob blwyddyn yn 2013, 2014 a 2015.

3. Beth yw amcanion y Gronfa?

Mae nifer o amcanion i'r Gronfa:

- (i) Ehangu apêl S4C a'i hymgysylltiad â chynulleidfaoedd, a denu cynulleidfaoedd newydd trwy gynnig cynnwys, cynhyrchion a gwasanaethau digidol newydd a rhyngweithio â chynulleidfaoedd mewn ffyrdd newydd.
- (ii) Creu elw masnachol ar fuddsoddiadau i SDML, naill ai i'w ail-fuddsoddi yn y Gronfa neu i'w gwneud yn bosib talu dididend i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C.
- (iii) Creu cynnwys sy'n cyfrannu at strategaeth ddigidol S4C ac yn ymestyn gwasanaeth darlledu cyhoeddus S4C.
- (iv) Ehangu cynulleidfa S4C yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, er enghraifft dysgwyr, plant hŷn, oedolion ifainc, siaradwyr Cymraeg ail iaith a'r rheiny nad ydynt yn hyderus wrth siarad neu ysgrifennu Cymraeg, a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg trwy'r cyfryngau digidol.
- (v) Datblygu sylfaen sgiliau digidol yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru a hybu cystadleurwydd a chynaliadwyedd cyflenwyr cynnwys a chynhyrchion digidol i S4C.
- (vi) Helpu i ddenu cyllid ychwanegol mewn cynnwys neu wasanaethau digidol o ffynonellau eraill. Trwy weithredu mewn partneriaeth gyda chyllidwyr eraill, rhagwelir y gallai ymgeiswyr llwyddiannus gyfranogi mewn prosiectau a mentrau ar y cyd sy'n rhoi mwy o werth na phe bai prosiect yn cael ei gyllido'n llwyr gan y Gronfa.

4. Beth all y Gronfa fuddsoddi ynddo?

Gall y Gronfa fuddsoddi mewn prosiectau i greu neu ddatblygu cynnwys, cynhyrchion ac/neu wasanaethau digidol yn y Gymraeg yn bennaf, sydd â'r potensial i greu elw masnachol ar fuddsoddiad ac/neu gyfrannu at gyflawni strategaeth cyfryngau newydd S4C. O dan gyloch gorchwyl cyfredol S4C, mae'n rhaid bod y rhain yn deillio o, neu'n cyfrannu at ("incidental or conducive to") ddarpariaeth gwasanaeth teledu S4C.

Yn gynyddol, bydd ochr gyhoeddus S4C yn comisiynu elfennau digidol a rhyngweithiol fel rhan o'i gweithgarwch prif ffrwd, sef comisiynu cynnwys teledu a chynnwys cysylltiedig. Bydd y Gronfa'n buddsoddi mewn prosiectau sy'n ymestyn yr ystod o weithgareddau digidol y mae S4C yn ymwneud â hwy ar hyn o bryd ac/neu'n buddsoddi ar sail fasnachol mewn prosiectau digidol.

Er enghraifft, gall y Gronfa fuddsoddi yn y canlynol:

- (i) Datblygu cynnwys a chynhyrchion digidol nad ydynt yn cael eu comisiynu'n rheolaidd gan ochr gyhoeddus S4C ar hyn o bryd, megis gemau, aps, e-lyfrau a ffyrdd newydd o gael gwybodaeth ac adloniant.
- (ii) Datblygu brandiau a chynnwys sydd wedi'u bwriadu i gael eu mwynhau ar-lein yn bennaf, yn enwedig cynnwys sydd wedi'i fwriadu ar gyfer cynulleidfaoedd annhraddodiadol ac mewn genres y mae S4C heb gynrychiolaeth ddigonol ynddynt.
- (iii) Prosiectau sy'n annog datblygiad talent newydd ac/neu gyfraniadau ar ffurf cynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr.
- (iv) Prosiectau sy'n annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy'r cyfryngau digidol ac sy'n rhoi anogaeth i greu mwy o gynnwys Cymraeg ar gyfer platfformau digidol.
- (v) Prosiectau i hybu addysg sy'n deillio o brif arlwy S4C neu sy'n manteisio ar archif S4C, fydd yn cyfrannu at adnodd addysg digidol Cymru.
- (vi) Prosiectau sy'n cynnig gobaith o elw masnachol ar y buddsoddiad a wneir.

Bydd prosiectau sy'n gallu tyfu'n unol â'r gofynion, sy'n gynaliadwy ac/neu y gellir eu trosglwyddo i ieithoedd neu gymwysiadau eraill yn cael eu hannog.

Mae S4C yn arbennig o awyddus i weld cynigion am brosiectau sy'n seiliedig ar bartneriaeth gyda sefydliadau eraill, boed yn sefydliadau cyhoeddus neu breifat, i sicrhau'r budd gorau i fuddsoddiad ac/neu gynnwys pob parti.

5. Sut fydd y Gronfa'n penderfynu a ddylid buddsoddi ai peidio?

Ar yr amod bod y buddsoddiad yn un o fath y mae'r Gronfa'n gallu ei wneud (gweler 4 uchod), bydd y Gronfa'n cymryd y meini prawf canlynol i ystyriaeth cyn penderfynu a ddylid buddsoddi ai peidio:

- (i) I ba raddau y bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni amcanion strategol a chyhoeddus y Gronfa, a nodir yn 3 uchod.
- (ii) Lefel yr elw masnachol y mae disgwyl iddo gael ei greu ar y buddsoddiad, dros ba gyfnod y mae disgwyl i'r elw gael ei greu a faint o risg sydd. Bydd SDML yn asesu apêl y prosiect a'r potensial i fanteisio ar yr eiddo deallusol a gaiff ei greu. Rhagwelir y dylai o leiaf 50% o'r symiau a fuddsoddir yn unrhyw flwyddyn unigol allu greu elw masnachol e.e. trwy greu platfform y gellir greu refeniw hysbysebu arno, greu hawliau eiddo deallusol y gellir eu gwerthu/trwyddedu, neu greu incwm o ficro-daliadau neu danysgrifiadau.
- (iii) Faint o gyllid o ffynonellau eraill y mae'r ymgeisydd yn gallu ei ysgogi. Cyn bwrw ymlaen, bydd ar SDML angen tystiolaeth o unrhyw elfennau eraill o'r pecyn cyllido sydd ar gael o ffynonellau dibynadwy.
- (iv) Unrhyw ffactorau eraill y gall SDML ystyried eu bod yn berthnasol neu'n rhesymol o fewn cyd-destun yr amcanion a restrir yn 3 uchod. Bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy SDML yn cynnwys, er enghraifft, yr hanes o lwyddiant sydd gan dîm y prosiect, ei allu i gyflawni ac adolygiad o gyllideb y prosiect.
- (v) Gan mai nod y Gronfa yw cynyddu swm y cynnwys a chynhyrchion digidol sydd ar gael yn Gymraeg a datblygu'r sylfaen sgiliau yng Nghymru, bydd ceisiadau oddi wrth fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru'n cael eu croesawu'n arbennig.

6. Faint fydd y Gronfa'n ei fuddsoddi?

Fel canllaw cyffredinol, bydd buddsoddiadau unigol o fewn yr ystod £1,000 - £150,000. Gall cyfarwyddwyr gweithredol SDML (yn gweithredu drwy fwyafrif) gymeradwyo buddsoddiadau unigol o hyd at £150,000. Gall y Gronfa wneud buddsoddiadau y tu hwnt i'r swm yma os oes rheswm da dros wneud hynny mewn amgylchiadau arbennig, yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd SDML.

7. Ar ba delerau fydd y Gronfa'n buddsoddi?

Cydnabyddir y bydd y telerau'n amrywio ym mhob achos yn ôl natur y prosiect a gofynion y partion eraill. I'r graddau bod y Gronfa'n talu mwy na phris masnachol teg am y cynnwys, y cynnyrch neu'r gwasanaeth a dderbynnir, byddai'r Gronfa'n disgwyl adennill ei buddsoddiad. Bydd y Gronfa hefyd yn gofyn am gyfran o'r elw o'r cynnyrch y buddsoddir ynddo. Bydd yr union delerau ariannol a manylion unrhyw drefniadau o ran cymryd arwystl yn cael eu negodi fesul achos unigol.

8. Beth yw'r broses ar gyfer ceisio buddsoddiad o'r Gronfa?

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen gais sydd ar gael drwy'r linc canlynol:

[Ffurflen Gais y Gronfa Ddigidol](#)

ac i anfon y ffurflen ac unrhyw wybodaeth bellach i'r cyfeiriad e-bost –

cronfa.ddigidol@s4c.cymru.

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno'u ceisiadau cyn bod y gwaith y ceisir cyllid ar ei gyfer yn dechrau.

Unwaith y bydd cais wedi cael ei wneud, bydd SDML yn trafod y syniad gyda thîm Comisiynu S4C ac yn asesu'r cais. Bydd SDML yn cysylltu â'r ymgeisydd i asesu'r cynnig mewn mwy o fanylder. Os nad yw SDML yn dymuno bwrw ymlaen, bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ynghylch hyn ar unwaith. Ceidw SDML yr hawl i beidio â rhoi rhesymau dros wrthod, ond byddai fel arfer yn hysbysu ymgeiswyr pam fod eu cais yn cael ei wrthod. Ni fydd SDML yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cymhwyster neu addasrwydd ceisiadau – fel endid masnachol, mae SDML yn gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn ôl ei fuddiannau ei hun a'i ddisgresiwn ei hun.

Os yw SDML yn dymuno bwrw ymlaen, bydd cynnig yn cael ei wneud i'r ymgeisydd, yn amodol ar gontract ac unrhyw amodau eraill. Os caiff y cynnig ei dderbyn, ceir cyfnod wedyn o ddrafftio dogfennau cyllido a chyflawni gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach.

9. Cyffredinol

Gall y canllawiau hyn gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan Fwrdd SDML.